CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 12fed o Orffennaf 2023 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Arfon Hughes, John P Roberts, Lynne Mccrickett, Idris Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson**. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Rhys Davies.

   Nodwyd ein cydymdeimlad gyda Tegid Humphreys, Cwmllinau, sef ein contractor torri gwair, a oedd wedi colli ei fam yn ddiweddar. Roedd y Clerc wedi cysylltu ag ef.
   Mynegwyd ein llongyfarchiadau gwresog I Grisial a Rhodri ar eu priodas yn ddiweddar. Hefyd roedd ein cofion at Cynghorwyr Idris Jones a John P Jones a oedd wedi cael llawdriniaeth.

   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a** gynhaliwyd ar yr 17eg o Fai ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng John P Roberts.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymateb y materion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Yng nghyswllt y pryderon am geir yn mynd yn gyflym tua Lawnt y Plas, darllenwyd yn llawn ymateb Andrew Gregson, Uwch Beirionnydd Traffig Cyngor Gwynedd. Gwelwyd mai yr unig ffordd ymlaen ydi gosod mesurydd traffig i weld beth yw'r sefyllfa gyda chyflymder traffig. Nid oedd ymateb llawn i'r materion Cefnffyrdd ers tro diwethaf, ond reodd ymddiheuriad diffuant am yr oedi a'r diffyg gweithredu ar y materion.

b) **Byrddau gwybodaeth/dehongli -** adroddwyd y diweddaraf gan y Cyng Catrin Johnson a oedd yn arwain ar hyn, a bod y gwaith bron a'i gwbwlhau. Diolchwyd yn fawr iawn i Catrin am ei gwaith gyda hyn.

c) **Torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy 2023** Nodwyd fod arwydd wedi ei roi i Hefin i rybuddio dim mynediad pan oedd y gwaith yn mynd yn ei flaen yn y fynwent. Roedd Tegid wedi cadarnhau fod arwyddion ganddo.

d) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy –** adroddodd y Clerc am y datblygiadau ers y cyfarfod diwethaf, a darllenwyd yn llawn e-bost David Flatley o'r 12fed o Fehefin ar ran Ffrindiau Tydecho. Yn ei hanfod, roedd yn dweud eu bod yn edrych at y Cyngor Cymuned I gefnogi dymuniad y gymuned i wneud hi yn anodd I'r Eglwys yng Nghymru i gael newid defnydd yr Eglwys yn dy gwyliau,

Air BNB, neu dy preswyl, gan mai y Cyngor Cymuned fyddai yn caniatau ‘easements’, hawl tramwy ayyb. Atgoffwyd pawb mai y Cyngor Cymuned biau y fynwent. Gwelwyd mai y cyfan y gellir ei wneud rwan yw aros tan ddiwedd yr haf, ac adolygu eto.

e) Adroddwyd fod BT wedi gaddo ymdrin a’r ffenestr oedd wedi torri ar y kiosk o dan Pennantigi.

## 5. Materion Cynllunio/Trwyddedu Eiddo

Adroddwyd fod yr isod wedi eu dosbarthu ers y cyfarfod diwethaf;

*Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (presennol) ar gyfer lleoli a defnyddio’r garafan fel llety anecs ar gyfer defnydd atodol i’r prif dy annedd – Llwyn Glas, Cwm Cewydd*

***Nid oedd sylwadau gan y Cyngor Cymuned***

…………………………………………………………………………………………….

Ymgynghoriad am gais eiddo trwyddedu newydd – Red Bull Hardline Event.

***Roedd y Cyngor Cymuned yn gefnogol I’r cais.***

## 6. **Materion Cyllid.**

a) Yng nghyswllt cyfrifon 2022-23, roedd y cyfan o’r wybodaeth angenrheidiol bellach wedi ei gyflwyno I’r Archwilydd allanol, Roedd yr hysbyseb arferol o ran hawliau etholwyr wedi ei roi ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y neuadd.

b) Nodi balansau cyfrifon y Cyngor (12/07/23), sef Cyfri Cyfredol £5393.48, Cyfri Claddedigaeth £437.87 Cyfri Cadw £772.03.

c) Nodwyd anfoneb gan Gyngor Gwynedd am gyfraniad tuag at doiledau Dinas Mawddwy, a chytunwyd I’w dalu fel arfer, sef swm o £2000. Nodwyd fod gwaith ei angen ar y to ochr gefn y toiledau, ac y dylid ysgrifennu I Gyngor Gwynedd am hyn.

d) Cytunwyd I dalu cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc, sef £435.15, a HMRC £108.60.

f) Roedd siec o £97.42 I law gan Scottish Power am bolion ar gomin Dolybont yn ol yr arfer.

## 7.Gohebiaeth.

a) Nodwyd fanylion am gynllun Rhannu Cartref Cyngor Gwynedd, a darllenwyd lythyr Richard Wyn Williams am y mater. Roedd poster eisoes wedi ei roi ar wal y Neuadd, a dosbarthwyd posteri pellach
b) Nodwyd fanylion y bydd cyfyngiadau 30mya yn newid i 20mya o’r 17eg o Fedi 2023 – sef yn y rhan fwyaf o’r achosion.
c) Nodwyd fanylion cynlluniau hyfforddiant i Gynghorwyr Cymuned gan Un Llais Cymru – roedd y Clerc yn ei ddosbarthu i bawb. Gwelwyd y byddai rhaid trafod hyn ymhellach yn yr Hydref/dechrau Gaeaf.

**d)** Nodwyd gyfarfod o Un Llais Cymru Meirionnydd ar zoom a oedd ymlaen yn ystod y noson, ac roedd y Cyng Wyn Lewis wedi bod yn rhan o hyn ers 7yh. Hefyd roedd llythyr gan Alun Wyn Evans, Cadeirydd Pwyllgor Meirionnydd yn pwysleisio pwysigrwydd hyn.

**e)** Adroddwyd fod yna Reolau Sefydlog o'r newydd gan Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Cymuned. Byddai angen mynd trwyddynt yn ofalus, ac addawodd y Cyng Catrin Johnson y byddai yn cynrothwyo efo hyn, a diolchwyd iddi.

**f)** Adroddwyd am holiadur yng nghyswllt Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector gyhoeddus gogledd Cymru. Addawodd y Clerc ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr. Roedd yn ymgynghoriad yn cau ar yr 11eg o Fedi.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Cyfeiriwyd at gomin Dolybont, a bod angen torri gwair yno. Addawodd Cyng John P Jones dorri rhai darnau pan yn gyfleus, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

b) Roedd gwair ar y llwybr o'r A470 lawr i'r ysgol angen ei dorri, gan ei fod bron a chau mewn rhai mannau. Addawodd Cyng Lynne McCrickett gysylltu a tim tacluso Cyngor Gwynedd er mwyn ymdrin a hyn.

c) Mynegwyd geiriau caredig i longyfarch Clwb Ffermwyr Ifanc Dinas Mawddwy ar drefniadau y digwyddiad Concro'r Cnu yn ddiweddar. Roedd yna drefnu gwych, pawb yn cydweithio yn hapus, a roedd yn llwyddiant ysgubol. Roedd yr ardal yn falch o'r genhedlaeth ifanc. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfon gair o ddiolch i Angharad Boncyn.

d) Roedd dwr yn parhau i ddod i lawr i faes parcio y Neuadd yn Aberangell, ac yn achosi diflastod i bawb. Gofynnwyd a ellir unwaith eto wneud cais i'r Adran Briffyrdd geisio cael ateb i'r broblem.

e) Adroddwyd fod coed ynn yn fregus yn yr ardal oherwydd y clefyd 'ash dieback', ac awgrymwyd a ddylid cael arolwg wedi ei wneud. Roedd y broblem yn arbennig o gwmpas comin Dolybont, a gwelwyd y dylid gofyn i Gyngor Gwynedd am eu sylwadau am y coed ynn ochr yr afon, ac hefyd y coed eraill gyda ochr y ffordd, lle roedd addewid wedi ei roi ar un adeg y byddent yn cael eu torri.

f) Nodwyd fod Cwmni Nod Glas wedi gwneud gwelliannau ar y llwybr o'r Hen Siop i Dolybont.

g) Gofynnwyd a oedd yna unrhyw ddatblygiad gyda'r Hen fynwent. Adroddodd Cyng Catrin Jones ei bod wedi rhoi addewid y byddai yn rhoi diweddariad pan fyddai unrhyw ddatblygiadau.

h) Roedd angen gofyn i Adra i wneud gwaith ar y maes parcio yn y Plas.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 30ain o Awst 2023 , 8.00y.h.**